DATGANIAD I'R WASG

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

Cyhoeddwyd gan y
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE

Ffôn 02920 395031
Ffacs 02920 395250

Dyddiad 12 Mai 2004

YMCHWILIADAU CYHOEDDUS AM GYNIGION Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU AR GYFER FFINIAU ETHOLAETHAU YNG NGHYMRU

Bydd ymchwiliadau yn cael eu cynnal ar ran y Comisiwn Ffiniau i Gymru ynglŷn â'u hargymhellion dros dro am ffiniau etholaethau yn siroedd cadwedig Gwent/Morgannwg Ganol, Clwyd/Gwynedd, De Morgannwg a Gorllewin Morgannwg. Cyhoeddodd y Comisiwn eu cynigion ar 5 Ionawr 2004, gan argymell addasiadau i 23 o'r 40 sedd sy'n bodoli, i adlewyrchu newidiadau yn y siroedd cadwedig ac ardaloedd llywodraeth leol ac i leihau'r anghyfartaledd yn yr etholaethau.

Mae gwrthwynebiadau i'r cynigion hyn yn Siroedd Cadwedig Clwyd/Gwynedd, Gwent/Morgannwg Ganol, De Morgannwg a Gorllewin Morgannwg, wedi achosi cynnal ymchwiliad lleol o dan Deddf Etholaethau Seneddol 1986. Bydd rhybudd swyddogol am yr ymchwiliadau'n cael eu cyhoeddi mewn papurau newydd lleol yn ystod yr wythnos yn dechrau 17 Mai 2004.

Bydd pob ymchwiliad yn cael ei gynnal yn gyhoeddus a gall unrhyw berson â diddordeb, boed yn gefnogwr neu'n wrthwynebwr i gynigion y Comisiwn, fynychu a chael ei glywed. Byddai'r Comisiwn yn annog pob parti â diddordeb i fynychu a rhoi eu barn. Ni ddylid tybio y bydd yr ymchwiliad yn trafod y materion hynny a godir yn y cynrychiolaethau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod cynrychiolaeth yn unig nac ychwaith y bydd argymhellion dros dro y Comisiwn yn aros yr un fath. Ar sawl achlysur, yn dilyn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr ymchwiliad ac adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol, mae'r Comisiwn wedi diwygio eu hargymhellion. Er y bydd y Comisiwn yn gwahodd cynrychiolaethau ysgrifenedig yn erbyn unrhyw argymhellion diwygiedig y gallant eu cyhoeddi, dylai pob parti â diddordeb fod yn ymwybodol efallai na fydd cyfle iddynt nodi eu hachos mewn ymchwiliad pellach, oherwydd yn anaml iawn y cynhelir ymchwiliad pellach.

Dyma fanylion yr ymchwiliadau ym mhob ardal:

CLWYD/GWYNEDD

Cynhelir yr ymchwiliad gan y Comisiynydd Cynorthwyol, Mr David Lloyd Jones QC. Bydd yn agor ar:

6 Gorffennaf 2004 am 10.00am yn Powis Hall, Prif Adeilad y Celfyddydau, Prifysgol Cymru Bangor, Ffordd y Coleg, Bangor LL57 2DG, a

8 Gorffennaf 2004 am 10.00am yn Siambr y Cyngor, Cyngor Sir Ddinbych, Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN.

Yn sir gadwedig Clwyd, mae'r prif wrthwynebiad i'r argymhellion dros dro yn ymwneud ag enwau'r etholaethau arfaethedig, yn enwedig etholaeth Conwy.

Yn sir gadwedig Gwynedd, mae'r prif wrthwynebiad i'r argymhellion dros dro yn ymwneud ag etholaethau arfaethedig Arfon a Dwyfor Meirionnydd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwrthwynebiadau yn awgrymu y dylid cadw'r trefniadau presennol. Mae nifer llai o gynrychiolaethau wedi awgrymu y dylid cynnwys ardal Bangor o fewn etholaeth bresennol Caernarfon. Cafwyd gwrthwynebiadau hefyd o ran y newid canlyniadol arfaethedig i ranbarthau'r Cynulliad, sef Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru. Awgrymodd nifer o gynrychiolaethau hefyd y dylai'r Comisiwn aros am gyhoeddi adroddiad Comisiwn Richard .

Mae'r argymhellion dros dro a chopïau o'r cynrychiolaethau a wnaed i'r Comisiwn (ynghyd â chrynodeb) yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio yn:

Clwyd

CONWY	Swyddfeydd y Cyngor, Bodlondeb LL32 8DU
GLANNAU DYFRDWY	Y Llyfrgell Gyhoeddus, Wepre Drive, Cei Conna CH5 4HA
LLANGOLLEN	Siop un Alwad, Y Capel, Stryd y Castell LL20 8NU
LLANRWST	Llyfrgell Llanrwst, Plas yn Dre, Ffordd yr Orsaf LL26 0DF
YR WYDDGRUG	Neuadd y Sir CH7 6HB
Y RHYL	Swyddfeydd y Cyngor, Russel House, Churton Road LL18 3DP
RHUTHUN	Trem Clwyd, Canol Y Dre LL15 1QA
WRECSAM	The Guildhall LL11 1WF

Gwynedd

CAERNARFON	Swyddfeydd y Sir, LL55 1SH
DOLGELLAU	Swyddfeydd y Cyngor, Cae Penarlâg LL40 2YB
YNYS MÔN	Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW

GWENT/MORGANNWG GANOL

Cynhelir yr ymchwiliad gan y Comisiynydd Cynorthwyol, Mr Gerard Elias QC. Bydd yn agor ar:

28 Mehefin 2004 am 10.00am yn Siambr y Cyngor, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-Bont ar Ogwr CF31 4WB; a 30 Mehefin 2004 am 10.00am yng Nghanolfan y Celfyddydau Muni, Gelliwastad Road, Pontypridd CF37 2DP.

Mae'r prif wrthwynebiadau o ran yr argymhellion dros dro yn ymwneud â throsglwyddo adrannau etholaethol Cefn Cribwr ac Abercynffig o Etholaeth Pen-y-Bont ar Ogwr i Etholaeth Ogwr, trosglwyddo adrannau etholaethau Cilfynydd a Glyncoch o Etholaeth Pontypridd i etholaeth Cwm Cynon a throsglwyddo adrannau etholaethol Aberbargoed, Bargoed a Gilfach o etholaeth Caerffili i etholaeth Islwyn.

Mae'r argymhellion dros dro a chopïau o'r cynrychiolaethau a wnaed i'r Comisiwn (ynghyd â chrynodeb) yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio yn:

Gwent

Y FENNI	Siop un Alwad, Cross Street, NP7 5HD
Y COED DUON	Swyddfeydd y Cyngor, Pontllanfraith, NP12 2YW
HENGOED	Swyddfeydd y Cyngor, Ystrad Fawr, Ystrad Mynach, CF82 7SF
MYNWY	Siop un Alwad, The Market Hall, Priory Street, NP25 3XA
CASNEWYDD	Swyddfeydd y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig, NP20 4UR
	Maindee Library, Chepstow Road, NP18 8BT
PONT-Y-PŴL	Swyddfeydd y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig, NP4 6YB

Morgannwg Ganol

ABERDÂR	Llyfrgell Ganolog, Stryd Fawr, CF44 7AG
PEN-Y-BONT AR OGWR	Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, CF31 4WB
GLYNEBWY	Municipal Offices, Y Ganolfan Ddinesig, NP23 6XB
MAESTEG	Llyfrgell Maesteg, North Lane, CF34 9AA
MERTHYR TUDFUL	Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, CF47 8AN
NANT-Y-MOEL	Llyfrgell Nant-y-moel, Canolfan Berwyn, Stryd Ogwy, CF32 7SD
PONTYPRIDD	Swyddfa Gofrestru Etholiadol, 4-8 Church Street, CF37 2TH
TONYPANDY	Swyddfeydd y Cyngor, The Pavillions, Parc Cambrian, CF40 2XX

DE MORGANNWG

Cynhelir yr ymchwiliad gan y Comisiynydd Cynorthwyol, Mr Anthony John Seys Llewellyn QC. Bydd yn agor ar:

> **24 Mehefin 2004 am 10.00am yn Ystrafelloedd Paget, Heol Victoria, Penarth, Bro Morgannwg CF64 3EG**

Mae'r prif wrthwynebiad i'r argymhellion dros dro yn ymwneud â throsglwyddo adran etholaeth Sili o Etholaeth Bro Morgannwg i Etholaeth De Caerdydd a Phenarth.

Mae'r argymhellion dros dro a chopïau o'r cynrychiolaethau a wnaed i'r Comisiwn (ynghyd â chrynodeb) yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio yn:

Y BARRI	Swyddfeydd Dinesig, Holton Road CF63 4RU
CAERDYDD	Llyfrgell Canolog Caerdydd, St. David's Link CF10 2DU
	Llyfrgell Treganna, Stryd y Llyfrgell, Canton CF5 1QD
	Llyfrgell Grangetown, Redlaver Street, Grangetown CF11 7LY
	Llyfrgell Yr Eglwys Newydd, Park Road CF14 7XA
Y BONT-FAEN	Neuadd y Dref CF61 1SD
PENARTH	West House, Stanwell Road CF64 2YG

GORLLEWIN MORGANNWG

Cynhelir yr ymchwiliad gan y Comisiynydd Cynorthwyol, Mr John Milwyn Jarman QC. Bydd yn agor ar:

> **13 Gorffennaf 2004 am 10.00am yn Siambr y Cyngor, Cyngor Dinas Abertawe, Neuadd Y Sir, Ffordd Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN.**

Mae'r prif wrthwynebiad i'r argymhellion dros dro yn ymwneud â'r gwrth-gynnig a gyflwynwyd gan Blaid Geidwadol Cymru, a gefnogwyd gan nifer o gynrychiolaethau (yn enwedig o ran Adran Etholaeth Mayals).

Mae'r argymhellion dros dro a chopïau o'r cynrychiolaethau a wnaed i'r Comisiwn (ynghyd â chrynodeb) yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio yn:

GORSEINON	Uned Wybodaeth Ganolog Gorseinon, Lime Street
CASTELL-NEDD	Swyddfeydd y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig SA11 3QZ
PORT TALBOT	Swyddfeydd y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig SA13 1JP
ABERTAWE	The Guildhall SA1 4PN
	Llyfrgell Treforys, Trehaune Road, Treforys SA6 7AA

Comisiwn Richard

Sefydlwyd Comisiwn Richard gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2002 a gofynwyd iddo ystyried a yw maint y Cynulliad yn ddigonol i'w swydd bresennol; a yw'r system etholiadol bresennol yn cael gynrychioladol ddigonol; ac a fyddai angen unrhyw newidiadau pe byddai'r Cynulliad yn cael mwy o bwerau. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru, wrth weithredu ei adolygiad cyffredinol cyfredol o ffiniau etholaethau Seneddol yng Nghymru, wedi cael nifer o gynrychiolaethau, mewn ymateb i argymhellion dros dro y Comisiwn Ffiniau, i'r graddfa y dylai'r Comisiwn Ffiniau ohirio llunio ei Adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol hyd nes y bydd y Comisiwn Richard wedi adrodd. Mae'r Comisiwn Ffiniau wedi ystyried y cynrychiolaethau hyn yn ofalus, ynghyd ag Adroddiad Comisiwn Richard sydd wedi'i gyhoeddi erbyn hyn, ond maent wedi penderfynu nad ydynt yn cyfiawnhau unrhyw newid i amserlen yr Adolygiad presennol. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn Ffiniau yn tynnu sylw'r Ysgrifennydd Gwladol at y cynrychiolaethau wrth gyflwyno eu hargymhellion terfynol.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: Comisiwn Ffiniau i Gymru, Tŷ Caradog, 1 – 6 Plas Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3BE.

Ffôn	029 2039 5031
Ffacs	029 2039 5250
E-bost	bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk
Gwefan:	www.bcomm-wales.gov.uk